

# Y FFORWM GWEITHWYR

3 Hydref 2018

Yn bresennol:

Cynrychiolwyr Aelodau:

Mr A Archer, Cynghorydd P Harries, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer a'r Cynghorydd M Williams.

Cynrychiolwyr Staff:

Ms H Buck, Ms N Couceiro, Mrs D Hughes a Ms E Rooney.

Cynrychiolwyr Undeb:

Ms H Huelin a Mr Jason Forrest (Unsain).

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 11.00am – 12.40pm)

**1. Ethol Cadeirydd**

Eglurodd y Prif Weithredwr mai arfer yr Awdurdod oedd i Gadeiryddion gael eu hethol o blith cynrychiolwyr yr Aelodau a'r staff am yn ail. Gan mai cynrychiolydd staff oedd y Cadeirydd blaenorol, gofynnwyd am enwebiadau o blith Aelodau'r Awdurdod.

**PENDERFYNWYD** ethol Mr A Archer yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

**PENDERFYNWYD** ethol Mrs D Hughes yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**3. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Miss S Davies, Mr R Hughes a Mr M George.

**2. Cyflwyniadau**

Cyflwynodd pob un eu hunain i weddill y Fforwm Gweithwyr.

**3. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**4. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 21<sup>ain</sup> o Fawrth 2018 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**CYTUNWYD** i gadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 21<sup>ain</sup> o Fawrth 2018.



## 5. **Adolygu'r Polisi Iechyd a Diogelwch**

Eglurodd y Rheolwr Personél bod y fersiwn diweddaraf o'r Polisi Iechyd a Diogelwch wedi cael ei fabwysiadu fis Mawrth 2015, ac yn unol ag arfer da, roedd yr Awdurdod, dan arweiniad y Grŵp Iechyd a Diogelwch, wedi bod yn gwneud gwaith i adolygu'r polisi. Yn benodol, roedd y datblygiadau yn y gwaith o ddiogelu ymwelwyr wedi'u hintegreiddio'n well yn y polisi. Roedd copi o'r polisi diwygiedig drafft wedi'i atodi at sylw aelodau'r Fforwm.

Roedd aelodau'r Fforwm yn falch o nodi bod hwn yn bolisi clir mewn iaith glir, ond awgrymwyd y gallai paragraff 2.5 'yn cael adnoddau digonol' gynnwys cyfeiriad at staffio ac adnoddau eraill sy'n cefnogi lles meddyliol. Hefyd gofynnwyd cwestiwn ynghylch yr hyn a olygir gan 'fonitro digwyddiadau ymwelwyr', ac eglurodd y Rheolwr Personél bod hyn yn cwmpasu'r gwaith a wneir ar ddiogelwch ymwelwyr, megis digwyddiad mawr ar Lwybr yr Arfordir y bu Gwylwyr y Glannau yn ymdrin ag ef.

Cytunodd y Rheolwr Personél i gynnwys y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod, a byddai'r polisi drafft wedyn yn cael ei gyflwyno gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w gymeradwyo yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

### **NODWYD.**

## 6. **Menter Iechyd a Diogelwch "Eistedd Llai Symud Mwy": Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Llonydd yn y Gwaith**

Roedd adroddiad y Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth yn amlinellu'r risgiau i iechyd sy'n deillio o ymddygiad llonydd, a'r fenter a ymgwymerwyd gan y rhai sy'n gweithio yn swyddfeydd yr Awdurdod yn Llanion i wrthsefyll y risgiau hyn drwy gymryd rhan mewn her rhithwir o gerdded llwybr yr arfordir. Pwysleisiodd nad mater o wneud ymarfer corff oedd hyn, gan fod nifer ohonynt yn bobl heini a chryf, ond yn hytrach roedd y fenter yn canolbwyntio ar yr argymhelliad bod staff yn sefyll ac yn symud o gwmpas bob rhyw awr y dydd.

Roedd adborth y rhai a gymerodd ran wedi bod yn gadarnhaol, gyda nifer yn dweud eu bod yn teimlo'n well yn gorfforol ac yn feddyliol. Roeddent hefyd yn croesawu cefnogaeth y rheolwyr, oedd yn gwrthbwysu'r ofn y byddai pobl yn cael eu hystyried yn gwastraffu amser. Y gobaith oedd ymgymryd â menter debyg yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Roedd Aelodau'r Awdurdod o'r farn bod y fenter hon wedi bod yn un ddiddorol ac arloesol ac roeddent yn falch bod yr adroddiadau gan y rhai a gymerodd ran wedi bod mor gadarnhaol. Dywedwyd ganddynt y gallai nifer o'r cyfarfodydd a fynychir ganddynt hwy elwa o gael toriadau fyddai'n



caniatáu i bobl symud o gwmpas mwy, a'u gobaith oedd y byddai'r fenter yn cael ei datblygu ymhellach. Nododd cynrychiolwyr eraill y staff mai bonws annisgwyl oedd y cyfeillgarwch a ddeilliodd o'r fenter a mwy o gyfleoedd am sgwrs wyneb yn wyneb gyda chydweithwyr yn y coridorau.

Cytunodd cynrychiolwyr yr Undeb hefyd bod hwn yn gam cadarnhaol o weithredu gan ofyn a ellid rhannu'r fenter â chyflogwyr eraill yn Sir Benfro. Roedd y staff yn hapus iddynt wneud hynny.

## **NODWYD.**

### **7. Datganiad Polisi'r Gweinidogion - Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol**

Atgoffodd y Prif Weithredwr aelodau'r Fforwm bod y datganiad uchod wedi'i gyhoeddi ar 27 Gorffennaf 2018 a bod y datganiad yn amlinellu'r meysydd o flaenoriaeth allweddol yn dilyn ystyried canlyniadau'r Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru, Rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru a'r ymgynghori ar Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy. Dywedodd bod y datganiad yn egluro'r dibenion ar gyfer y Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng nghyd-destun bod y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ac ar ddiwedd cyfnod o adolygu.

Roedd y ddogfen wedi'i thrafod gan y staff a'r Aelodau mewn amrywiol fforymau, ond bod y cyfarfod hwn yn gyfle i rannu barn rhwng y grwpiau.

Cytunodd aelodau'r Fforwm mai'r gobaith oedd y byddai'r ddogfen hon yn dod â'r hyn fu'n gyfnod hir o adolygu i ben, ac roeddent yn falch i nodi bod y bwriad i dorri cyllideb yr Awdurdod hefyd wedi'i ollwng. Arweiniodd hyn at drafodaeth ar faterion masnachu, a barnai'r staff bod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn taro cydbwysedd da rhwng cynhyrchu incwm a chynnal gwerth treftadaeth y safleoedd, gan ategu gwerthoedd y Parc Cenedlaethol. Roedd rhai Aelodau'r Awdurdod yn dal i bryderu am yr effaith bosibl ar fusnesau lleol, tra bod eraill yn nodi bod atyniadau'r Parc Cenedlaethol yn creu refeniw i'r busnesau hyn. Byddai trafodaethau o'r fath rhwng yr Aelodau yn parhau i sicrhau cadw'r ddysgl yn wastad.

Nodwyd hefyd, mewn ymateb i'r heriau economaidd, bod mwy o rolau codi arian yn cael eu creu ar draws y Parciau Cenedlaethol.

## **NODWYD.**



## **8. Blaenoriaethau Ariannu yr Awdurdod yn y Dyfodol**

Nododd y Prif Weithredwr, er gwaethaf ailgyflwyno cyllideb yr Awdurdod, bod llawer iawn o ansicrwydd yn parhau. Credai y dylai'r bwriad i adolygu gwaith yr Awdurdod fynd rhagddo gan nad oedd y sefyllfa ariannol yn debygol o wella yn ystod y degawd nesaf, ac y byddai'r Aelodau, staff a'r rhanddeiliaid eraill yn cael cyfle i fwydo gwybodaeth i'r broses.

**NODWYD.**

## **9. Cynnig UNSAIN bod yr Awdurdod yn ystyried dod yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig**

Dywedodd swyddogion UNSAIN bod yr Awdurdod wedi talu'r Cyflog Byw i'w staff ers nifer o flynyddoedd, a gofynnwyd a oedd unrhyw ystyriaeth bellach wedi'i rhoi i gofrestru yn gyflogwr achrededig. Atebodd y Swyddogion bod y penderfyniad wedi'i gymryd i dalu lwfans ategol i ddod â phob cyflog i'r un sy'n gyfwerth â'r Cyflog Byw oni bai bod hynny'n dod yn anfforddiadwy i'r Awdurdod. Fodd bynnag, roedd costau hefyd yn gysylltiedig ag achredu ac ystyriaethau ynghylch contractwyr oedd rhaid eu hystyried.

Dywedodd un Aelod mai ased mwyaf unrhyw sefydliad oedd ei staff, a byddai mabwysiadu statws achrededig yn dangos gwerthfawrogiad o'r staff a hyder ynddynt. Cynigiodd bod y Fforwm yn argymhell i'r Awdurdod y dylid cymryd camau i'r perwyl hwnnw. Tra bod Aelodau eraill yn cefnogi hyn, roeddent yn pryderu am y costau posibl, ac awgrymwyd bod angen cael gwybodaeth bellach cyn y gellid gwneud penderfyniad. Ta beth, dywedodd y Rheolwr Personél bod cytundeb cyflog dwy flynedd yr NJC, a gynlluniwyd i gynnwys y Cyflog Byw Cenedlaethol, yn hytrach na'r cyflog byw 'go iawn', yn cynnwys cynnydd sylweddol mewn cyflogau ar bwyntiau isaf y golofn dâl, ac nad oedd yr Awdurdod wedi cytuno eto sut y byddai hyn yn cael ei weithredu. Awgrymwyd bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod unwaith y byddai penderfyniad wedi'i wneud o ran yr adolygiad o gyflogau a graddfeydd. Derbyniwyd hyn a thynnwyd yn ôl y cynnig o argymhell i'r Awdurdod i ddod yn Gyflogwr Cyflog Byw.

**NODWYD.**

